Joseph Fry 1728–1787

Cynhyrchydd siocled a Chrynwr

Ganwyd Joseph Fry i deulu o Grynwyr o argyhoeddiadau dwfn ym 1728. Ef oedd mab hynaf John Fry oedd yn cadw siop yn Sutton Benger, Wiltshire. Addysgwyd ef mewn ysgol gan y Crynwyr yng ngogledd Lloegr ac yna aeth i fwrw prentisiaeth gyda'r apothecari a'r meddyg mawr ei barch, Henry Portsmouth, yn Basingstoke. Sefydlodd ei hun fel apothecari ym Mryste ym 1753 a phriododd ferch hynaf Portsmouth, sef Anna, ym 1755. Yn raddol cefnodd ar ei yrfa feddygol gan droi yn gynyddol tuag at fusnes. Fel apothecari roedd yn gwneud a gwerthu siocled ac ym 1761 prynodd fusnes siocled Walter Churchman mewn partneriaeth gyda John Vaughan. Yn y cyfnod hwnnw yr oeddent yn flaengar a gosodwyd peiriant ager Boulton a Watt yn y ffatri. O ganlyniad roedd ganddynt fantais fawr dros eraill yn y farchnad siocled. Cynyddodd y busnes yn gyflym ac o fewn tair blynedd roedd ganddynt asiantau mewn 53 o drefi yn Lloegr a warws siocled yn Llundain. Symudwyd y gwaith siocled o Newgate Street i Union Street, Bryste, ym 1777. Dywedir mai cwmni Fry oedd y cyntaf i gynhyrchu bar siocled wedi ei fowldio yng Ngwledydd Prydain ar gyfer y fasnach boblogaidd a hefyd yr ŵy Pasg cyntaf ym 1874. Cynnyrch arall enwog a blasus ganddynt oedd 'Fry's Turkish Delight'.

Ehangai'r busnes i bob cyfeiriad ac roedd ganddo heyrn mewn llawer i dân. Cynorthwyodd i sefydlu gwaith tsieni Richard Champion ym Mryste gyda buddsoddiad o £1,500. Cydweithiodd gyda'r Henadur William Fripp, cynhyrchydd sebon ym Mryste, a chyda gwaith cemegol yn Battersea, Llundain, lle y cynorthwyai un o'i feibion. Ym 1764 trodd ei sylw at argraffu gan fynd yn bartner i William Pine, cyhoeddwr y *Bristol Gazette*. Yno yr oedd ganddynt ffowndri teip a gynhyrchai lythrennau i'w gosod mewn gweisg argraffu. Symudwyd y ffowndri i Lundain ac yno cynhyrchwyd teip yn Queen Street ger Upper Moorfields. Ym 1774 argraffwyd Beibl bychan ganddynt ym Mryste ac ar y pryd honnid mai'r teip perl oedd y lleiaf erioed a ddefnyddiwyd wrth argraffu'r Ysgrythur. Yna, rhwng 1774 a 1776, argraffwyd Beiblau ffolio ac octafo ganddynt gyda nodiadau helaeth gan nifer o ddiwinyddion enwog.

Roedd yn aelod gweithgar o Gymdeithas y Cyfeillion (Crynwyr) a gwnaeth ymdrech arbennig i godi safon foesol rhai o'r Crynwyr ifanc ym Mryste oedd yn yfed a hapchwarae ac yn mynychu oedfaon mewn dillad crand a gwallt dodi. Bu Joseph Fry farw ar ôl ychydig ddyddiau o salwch ar 29 Mawrth 1787 a chladdwyd ei gorff ym mynwent y Crynwyr yn y Friars, Bryste. Cymerodd ei weddw, Anna, ofal o'r busnes siocled a choco. Newidiwyd enw'r cwmni o Fry, Vaughan & Co. i Anna Fry & Son. Wedi ei marwolaeth hi, yn Charterhouse Square, Llundain, cymerodd ei mab Joseph Storrs Fry a'i dri mab gyfrifoldeb am y busnes a elwid erbyn hynny yn J. S. Fry & Sons. Daeth siocled Fry yn enwog trwy wledydd Prydain ac yn y diwedd fe brynwyd y cwmni gan Cadbury ym 1919.